ICT Curriculum Team

Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

ICT Year 1

Uned 1B: Cyfathrebu Gwybodaeth: Defnyddio prosesydd geiriau gyda banc geiriau

YNGLYN Â'R UNED:

Yn yr uned hon mae plant yn dysgu defnyddio prosesydd geiriau i gydosod testun a ddelir mewn banc geiriau ac yn dechrau dod yn gyfarwydd â bysellfwrdd y cyfrifiadur.

Bydd plant yn trafod y geiriau maen nhw'n eu gweld o'u cwmpas a byddant yn deall bod geiriau'n cyfleu gwybodaeth. Byddant yn defnyddio'r wybodaeth hon i gyfathrebu syniadau gan ddefnyddio TGCh.

Bydd plant yn gallu cymhwyso'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu yn yr uned hon wrth ysgrifennu adroddiadau byr, rhestrau, labeli, ryseitiau. etc

BLE MAE'R UNED YN FFITIO:

Mae'r uned yn cymryd yn ganiataol bod plant:

- yn deall bod y llygoden yn rheoli'r pwyntydd
- yn gallu defnyddio llygoden gyda pheth cydsymudiad llaw-llygad
- yn gallu dethol testun gan ddefnyddio'r botwm cywir ar y llygoden
- yn gallu adnabod y llythrennau ar fysellfwrdd y cyfrifiadur.

Geirfa:

bysell | bysellfwrdd | dethol | ôl-fysell | bar gofod | cadw | adfer | bwydo | dileu | argraffu | argraffydd

Adnoddau:

prosesydd geiriau | enghreifftiau o ysgrifennu | Published llyfrau, cylchgronnau a phapurau newyddion sydd wedi'u cyhoeddi | labeli | arwyddion

DISGWYLIADAU erbyn diwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: bwydo geiriau unigol i mewn o'r bysellfwrdd; yn defnyddio banc geiriau i gyfansoddi brawddegau sy'n cyfathrebu ystyr

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: bwydo geiriau unigol i mewn o'r bysellfwrdd; yn defnyddio banc geiriau i gyfuno geiriau gyda chymorth

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio TGCh i greu brawddegau sy'n cyfathrebu ystyr, gan ddefnyddio'r bysellfwrdd ar gyfer y rhan fwyaf o'r testun

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w codi**
Gosod yr olygfa			
• **syniad allweddol:** bod geiriau'n cyfleu gwybodaeth.	• Siaradwch â'r plant am y testun/geiriau maen nhw'n eu gweld o'u cwmpas, *ee labeli, arwyddion, posteri*. Gofynnwch iddynt pam mae'r testun yno a beth mae'n ei ddweud wrthynt. Esboniwch i'r plant eu bod nhw'n mynd i gynhyrchu darn o destun gan ddefnyddio'r cyfrifiadur.	• Adnabod testun/geiriau a gwybod eu bod nhw'n cyfleu gwybodaeth • Deall bod testun/geiriau'n dod mewn maint, lliw ac arddull wahanol.	• Dangoswch enghreifftiau i ddisgyblion o destunau gwahanol mewn llyfrau, cylchgronnau, arwyddion, labeli etc. a thrafodwch yr arddulliau, y lliwiau a'r meintiau gwahanol.
Tasgau byr wedi'u ffocysu			
• **syniad allweddol:** bod modd bwydo testun i mewn i gyfrifiadur a'i argraffu • **techneg:** ymgyfarwyddo â'r bysellfwrdd	• Esboniwch i'r plant eu bod nhw'n mynd i deipio brawddeg i mewn i'r cyfrifiadur gan ddefnyddio'r bysellfwrdd. Dangoswch i'r plant sut i greu prif lythyren drwy ddefnyddio'r bysell shifft. Dangoswch sut i ddefnyddio'r bysell dileu/ôl-ofodi os ydyn nhw wedi camdeipio neu ailadrodd llythyren a'r bar gofod. Defnyddiwch brawddegau cyfarwydd, fel Dw'n hoffi…Fy enw i yw…Fy hoff ffwyd yw…etc. Gellir ychwanegu clipart priodol hefyd.	• Bwydo llythrennau unigol i deipio eu brawddegau • Defnyddio shifft, dileu/ôl-ofodi a'r Bar gofod a dod o hyd i'r atalnod llawn,.	• Rhoi cyfle i blant ymarfer bwydo llythrennau a rhifau maent yn eu hadnabod i mewn. • Efallai bydd angen creu templedi sydd angen ychwanegu un gair un unig ar blant llai galluog, fel, Fy enw i yw, ac maen nhw'n bwydo'r llythrennau o'r bysellfwrdd i gwblhau'r frawddeg. • Gall disgyblion mwy galluog lusgo delweddau o fanc clip art i ddarlunio eu brawddeg.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posib**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w codi**
Tasgau byr wedi'u ffocysu			
• **syniad allweddol:** bod modd dethol testun o fanc geiriau • **techneg:** dethol a gwrando ar destun gan ddefnyddio'r llygoden	• Dangoswch i'r dosbarth sut i ddethol geiriau o fanc geiriau, gan ddefnyddio'r llygoden a dangoswch sut mae modd i'r cyfrifiadur ddweud y gair. Gofynnwch i'r plant ddethol geiriau o'r banc geiriau i gwblhau brawddegau, *ee 'Dyma gath/gi/lygoden...'*	• Defnyddio banc geiriau i greu brawddegau syml • Troi'r cyfarpar siarad ymlaen	• Dylai plant wrando ar *bob* gair cyn dethol. • Esboniwch nad yw'r prosesydd geiriau yn gallu dweud pob gair yn gywir.
Tasg Asesu			
• cyfathrebu syniadau drwy ddethol ac ychwanegu testun	♦ Esboniwch wrth y plant eu bod nhw'n mynd i ddefnyddio'r sgiliau maen nhw wedi eu dysgu i gynhyrchu darn o destun am dopig neu ymweliad dosbarth. Gofynnwch iddynt ddethol y frawddeg ddechreuol ac wedyn ychwanegu geiriau maen nhw wedi eu dewis. Gellir dewis y geiriau o fanc geiriau. • Argraffwch y gwaith.	• Gynhyrchu testun ar y sgrîn sy'n glir a heb unrhyw wallau	• Anogwch y plant i wrando ar y geiriau i sicrhau bod eu brawddegau yn gwneud synnwyr . • Mae modd integreiddio'r gweithgaredd hwn mewn gweithgareddau mewn pynciau eraill gan ddefnyddio banc geiriau priodol.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website